



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru

SFWIN 02/2020

Myfyrwyr Rhan-amser – cyfyngiadau ar gymorth i raddedigion

Mai 2020

Myfyrwyr rhan-amser – cyfyngiadau ar gymorth i raddedigion

Mae Rheoliad 25 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2018 (OS 2018/191) ('y Rheoliadau') yn darparu, o ran cyrsiau addysg uwch sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, i fyfyrwr rhan-amser fod yn gymwys i gael cymorth pan na fo'n gymwys felly fel arall. Yn benodol, bydd myfyrwr rhan-amser yn gymwys i gael cymorth er ei fod wedi cael gradd gyntaf o sefydliad yn y Deyrnas Unedig os yw ef neu hi'n astudio un o'r cyrsiau a restrir yn rheoliad 25(2), achos 3.

Mae'r pynciau esempt wedi eu diffinio gan ddefnyddio'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch ('HECoS')¹. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn diwygio'r dosbarthiad o bryd i'w gilydd, ac yn ddiweddar mae fersiwn 1.2 wedi'i ddisodli gan fersiwn 1.3.3. Caiff fersiwn 1.2 ei ddiddymu ar 31 Gorffennaf 2021. Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar y pynciau esempt.

Mae'r Rheoliadau yn darparu esemptiad i gyrsiau sydd â'r cod Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin ('CAH') 'CAH07 Y Gwyddorau Ffisegol', ymhlith eraill. Bydd y newid o fersiwn 1.2 i 1.3 o'r Hierarchiaeth Cydgasglu Cyffredin yn effeithio ar y categori hwn, gan fod rhai pynciau yn symud o 'CAH07 Y Gwyddorau Ffisegol' (CAH Fersiwn 1.2) i 'CAH26 Astudiaethau Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd' (Fersiwn 1.3.3). Fodd bynnag, bydd un pwnc (100225 – gwyddor deunyddiau) yn symud o 'CAH07 Y Gwyddorau Ffisegol' (Fersiwn 1.2) drwy 'CAH26 Astudiaethau Daearyddiaeth, y Ddaear a'r Amgylchedd' (CAH Fersiwn 1.3.1) i 'CAH10 Peirianeg a Thechnoleg' (CAH Fersiwn 1.3.3).

Nid yw polisi Gweinidogion Cymru yn y maes hwn wedi newid. Er mwyn cadw at y polisi hwn, bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn defnyddio'r trefniadau mapio yn nhabl 1 i sicrhau bod y cyrsiau hynny a esemptiwyd o dan reoliad 25(2) yn y flwyddyn academiaidd 2019/20 a blynyddoedd academiaidd blaenorol yn parhau i fod yn esempt yn y flwyddyn academiaidd 2020/21.

Sylwer y bydd nifer fach o gyrsiau yn mapio i CAH07 yn fersiwn 1.3.3 o CAH08 yn fersiwn 1.2 (tabl 2). Nid yw'r rhain yn bynciau esempt.

Mae Rheoliad 81(28) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2017 (OS 2017/47) yn gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018. Mae'r un driniaeth yn gymwys.

¹ <https://www.hesa.ac.uk/innovation/hecos>

Tabl 1 Trefniadau mapio'r pynciau esempt

HECoS	CAH 1.3.3	CAH 1.2
(101104) daeareg gymhwysol	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101351) rhyngweithiadau'r atmosffer â'r eigion	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100379) gwyddor yr amgylchedd	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100394) gwyddorau'r ddaear	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101106) daeareg peirianeg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100380) gwyddor daear amgylcheddol	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101093) daeareg fforio	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101084) geoffiseg fforio	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101083) geogemeg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101082) peryglon daearegol	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101086) eigioneg ddaearegol	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100395) daeareg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100396) geoffiseg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101089) hydroddaareg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101073) hydrograffeg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100418) gwyddorau môr	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100382) meteoroleg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100421) gwyddorau eigion	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol

(100398) palaeontoleg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101105) daeareg petrolewm	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(101081) fwlcanoleg	(CAH26) astudiaethau daearyddiaeth, y ddaear a'r amgylchedd	(CAH07) y gwyddorau ffisegol
(100225) gwyddor deunyddiau	(CAH10) peirianeg a thechnoleg	(CAH07) y gwyddorau ffisegol

Tabl 2 CAH07 Trefniadau mapio'r pynciau nad ydynt yn esempt

HECoS	CAH 1.3.3	CAH 1.2
(100392) gwyddoniaeth gymhwysol	(CAH07) y gwyddorau ffisegol	(CAH08) gwyddoniaeth gyffredinol ac astudiaethau eraill mewn gwyddoniaeth
(100390) gwyddoniaeth gyffredinol	(CAH07) y gwyddorau ffisegol	(CAH08) gwyddoniaeth gyffredinol ac astudiaethau eraill mewn gwyddoniaeth
(100391) y gwyddorau naturiol	(CAH07) y gwyddorau ffisegol	(CAH08) gwyddoniaeth gyffredinol ac astudiaethau eraill mewn gwyddoniaeth